

ectopig. Bydd tua 10% yn cael diagnosis o feichiogrwydd ectopig.

Os yw fy meichiogrwydd wedi methu, a yw hyn yn meddwl nad ydw i wedi cael beichiogrwydd ectopig?

Yn y rhan fwyaf o achosion o Feichiogrwydd mewn Lleoliad Anhysbys, nid yw lleoliad y beichiogrwydd byth yn dod yn hysbys. Bydd y mwyafrif yn achosion o feichiogrwydd a fethwyd yn y groth – gelwir y rhain hefyd yn achosion o gamesgor. Byddai ddim ond yn bosib cael diagnosis o feichiogrwydd ectopig a fethwyd os gwneir ail sgan, ond fel arfer does dim angen gwneud hyn o safbwynt gofal meddygol.

Eich emosiynau

Mae'r cyfnod o gael diagnosis yn amser gofidus. Yn ogystal â'r straen gorfforol o ymweld â'r ysbyty a chael profion dro ar ôl tro, mae'n bosib y byddwch yn ei gweld yn her i ddod i delerau'n emosiynol â'r hyn sy'n digwydd i chi.

I'r mwyafrif, wrth fynd trwy brofiad anodd, mae'n naturiol eich bod am geisio gwneud synnwyr o'r hyn sy'n digwydd. Mae ceisio deall y gwahanol brofion a deall pam nad oes atebion pendant yn ddryslyd. Gall peidio cael atebion fod yn rhwystredig, ynghyd â phryderon am yr hyn sydd i ddigwydd.

Emosiynau eich partner

Gall partneriaid gael eu heffeithio gan Feichiogrwydd Mewn Lleoliad Anhysbys. Yn ogystal â cheisio

prosesu beth sydd wedi digwydd, gall eich partner fod yn ceisio eich cefnogi wedi iddo eich gweld chi'n mynd trwy brofiad hynod anodd, yn gorfforol ac emosiynol.

Efallai nad oedd eich partner wedi teimlo cyswllt â'r beichiogrwydd. Efallai eu bod yn ceisio ymdopi â'u hymateb emosiynol eu hunain o fod wedi colli'r beichiogrwydd, ac yn gweld eich trawma emosiynol a chorfforol chi. I rai, gall sylw'r partner fod arnoch chi yn hytrach na'r beichiogrwydd a gollwyd a gall hyn greu anghytundeb.

Weithiau bydd eich partner yn ei chael hi'n anodd i ddeall eich teimladau, ac efallai y byddwch yn teimlo nad yw eich partner yn eich cynnal yn y ffordd yr hoffech gael eich cynnal. Gall partneriaid geisio 'trwsio'r sefyllfa' neu osgoi trafod beth sydd wedi digwydd, neu godi'r pwnc poenus.

Nid yw hyn am nad ydyn nhw'n hidio amdanoch ond yn hytrach am eu bod am 'wneud pethau'n well'. Gyda rhan fwyaf o'r sylw'n cael ei roi i chi, gall eich partner deimlo ei fod ar ei golled, wedi'i anwybyddu. Gall partneriaid profi trafferthion seicolegol, megis straen ôl-drawmatig, yn dilyn beichiogrwydd ectopig.

Mae'n bwysig eich bod, pan fyddwch yn teimlo y medrwyd, yn siarad â'ch partner am eich teimladau chi ac am deimladau'ch partner. Rydym yma hefyd i gefnogi partneriaid drwy'r profiad hynod anodd o Feichiogrwydd Mewn Lleoliad Anhysbys.

Sut gall yr Ymddiriedolaeth Beichiogrwydd Ectopig eich cefnogi

Mae'r Ymddiriedolaeth Beichiogrwydd Ectopig yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth i'r rheini sy'n colli plentyn yn gynnar yn y groth, drwy feichiogrwydd ectopig.

Mae sawl un ohonom yn yr YBE wedi bod trwy drawma beichiogrwydd ectopig ac felly ry'n ni'n deall sut ydych chi a'ch câr yn teimlo, ac yn medru dangos empathi. Efallai eich bod yn teimlo'n ddryslyd, yn unig ac wedi'ch llorio. Mae'n bosib fod gennych gwestiynau am y profiad a beth i'w ddisgwyl yn y dyfodol, yn gorfforol ac yn emosiynol. Rydym yma i'ch cefnogi.

Mae gan ein gwefan wybodaeth bellach ar wella'n gorfforol ac emosiynol ar ôl beichiogrwydd mewn lleoliad anhysbys (BLIA) a beichiogrwydd ectopig. Mae gan y wefan gynnwys sydd wedi'i wirio'n feddygol ac mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth ar ein gwahanol gwasanaeth lle mae modd i chi rannu eich profiadau a holi cwestiynau. Os ydych yn meddwl y gallwn eich helpu, edrychwch ar ein gwefan, anfon ebost neu alw.

Ewch i ectopic.org.uk am fwy o wybodaeth a chefnogaeth.



Beichiogrwydd mewn
Lleoliad Anhysbys

Pregnancy of Unknown Location

The
Ectopic
Pregnancy
Trust



Publication date: November 2021

Website: ectopic.org.uk

Helpline: **020 7733 2653**

Email: ept@ectopic.org.uk

Registered charity number: 1071811



Registered with
FUNDRAISING
REGULATOR



The
Ectopic
Pregnancy
Trust



For healthcare professionals: To request further leaflets, please contact leaflets@ectopic.org.uk or call 020 7096 1838 or text to 07537 416085



Mae'n flin gennym fod eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol wedi rhoi gwybod i chi fod gennych feichiogrwydd sydd â'i leoliad yn anhysbys (neu BLIA). Gall fod yn gyfnod anodd yn emosiynol ac mae'n bosib y bydd gennych rai cwestiynau am eich BLIA. Yn y daflen hon, rydym am geisio ateb rhai o'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn aml.

Mae mwy o wybodaeth a chefnogaeth ar www.ectopic.org.uk

Beth yw Beichiogrwydd Mewn Lleoliad Anhysbys?

Dywedir bod eich beichiogrwydd mewn lleoliad anhysbys pan fyddwch yn derbyn archwiliad trawsweiniol (pan osodir stiliwr yn y wain) ac nad oes modd gweld y beichiogrwydd ar y sgan. Os nad oes beichiogrwydd i'w weld y tu mewn neu'r tu allan i'r groth, os nad yw'r sonograffydd yn sicr, mae'n bosib y bydd y beichiogrwydd yn cael ei alw'n un sydd â'i leoliad yn anhysbys (BLIA). Mae'n bwysig deall nad yw BLA yn ddiagnosis, mae'n enw sy'n cael ei ddefnyddio nes bod lleoliad y beichiogrwydd yn cael ei ddarganfod yn bendant. Mae hefyd yn bwysig nodi nad yw'r enw'n golygu mai beichiogrwydd ectopig yw hwn, gan fod BLIA hefyd yn cynnwys achosion o feichiogrwydd iach, ond eu bod yn rhy fach i'w gweld ar y sgan uwchsain, a beichiogrwydd sydd wedi methu sy'n rhy fach i'w gweld.

Mewn achos o BLIA, cymerir sampl o waed er mwyn mesur lefel yr hCG (yr un hormon ag sy'n cael ei

fesur mewn prawf beichiogrwydd), a hormon beichiogrwydd arall o'r enw progesteron. Mae'n bosib y bydd y prawf hCG yn cael ei ail-wneud 48 awr yn ddiweddarach, yn dibynnu ar ganlyniadau'r prawf cyntaf, a bydd hyn yn helpu'r meddygon i gynllunio os oes angen ail sgan er mwyn gweld lleoliad y beichiogrwydd.

Y rheswm am hyn yw hyd nes bod lleoliad y beichiogrwydd yn sicr yn wybyddus, neu bod lefelau'r hormonau wedi gostwng i'w lefelau cyn y beichiogi, mae risg o gael cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd ectopig, gan fod hwnnw heb ei gadarnhau eto. Am bob 100 o achosion BLIA, bydd tua 12 ohonyn nhw'n achosion o feichiogrwydd ectopig. Mae'n bwysig nodi na fydd angen triniaeth ar bob un o'r 12 hyn.

Bydd eich meddyg yn trafod triniaethau posib â chi.

Bydd pob achos BLIA yn cael ei fonitro nes bod lleoliad terfynol beichiogrwydd cynnar yn cael ei gadarnhau fel un ectopig, neu un o fewn y gwagle crothol. Weithiau does dim modd cadarnhau'r lleoliad; dyna pam mae'n rhaid profi lefelau'r hormonau am ychydig yn hirach.

Beth sy'n achosi Beichiogrwydd Mewn Lleoliad Anhysbys?

Mae pedwar prif reswm pam bod eich beichiogrwydd yn cael ei adnabod fel Beichiogrwydd Mewn Lleoliad Anhysbys:

1. Gall fod yn rhy gynnar i weld eich beichiogrwydd ar sgan Mae profion wrin yn sensitif iawn erbyn hyn ac mae rhai yn medru profi beichiogrwydd cyn colli misglwyf, hyd yn oed. Fodd bynnag, does dim modd gweld beichiogrwydd ar sgan am 6 wythnos wedi colli misglwyf felly gall fod yn rhy gynnar i weld dim byd.

2. Efallai eich bod eisoes wedi dioddef camesgoriad Os ydych yn wedi bod yn gwaedu'n drwm, fel petaech yn cael misglwyf trwm, neu un trymach nag arfer, efallai eich bod eisoes wedi dioddef camesgoriad ac nad ydych yn feichiog.

3. Mae gennych feichiogrwydd ectopig a gall fod yn rhy gynnar i'w weld ar sgan Mae beichiogrwydd ectopig yn digwydd pan mae'r wy sydd wedi'i ffrwythloni yn mynd yn sownd y tu allan i wagle'r groth. Fel yn achos beichiogrwydd cynnar yn y groth, gall fod yn rhy gynnar i weld beichiogrwydd ectopig ar sgan.

4. Mae gennych feichiogrwydd ectopig nad oes modd ei weld ar y sgan o ganlyniad i broblemau gweld y sgan neu am fod gennych ffbroidau.

Sut bydd fy meddygon yn cyrraedd eu diagnosis terfynol?

Bydd hyn yn dibynnu ar bolisi lleol eich Uned Beichiogrwydd Cynnar (UBC), clinig uwchsain neu ysbyty.

Yn gyffredinol, bydd angen profion

gwaed, ac archwiliad uwchsain arall (sgan).

Bydd y meddygon yn defnyddio'r profion gwaed i fesur un neu ddau hormon: yr hormon beichiogrwydd human chorionic gonadotrophin (hCG), ac weithiau progesteron. Bydd rhai unedau'n mesur lefelau'r ddau hormon yr un pryd; bydd rhai yn cymryd dau brawf o'r hCG gyda 48 awr rhwng y ddau brawf.

Cynhyrchir yr hormon hCG yn ystod beichiogrwydd gan y brych cynnar, waeth beth fo'i leoliad. Mae modd profi'r hormon hCG drwy gynnal prawf gwaed tua 11 diwrnod wedi'r beichiogi, ac mewn beichiogrwydd iach, bydd yn cynyddu yn ystod 8–11 wythnos y beichiogrwydd, gan ostwng wedyn, neu lefelu, drwy weddill y beichiogrwydd.

Yr hCG sy'n achosi'r salwch boreuol y mae rhai yn ei gael ar ddechrau eu beichiogrwydd. Progesteron yw'r hormon sy'n cael ei greu gan y goden corpus luteum, sy'n ffurfio ar yr wyfa wedi pob ofyliad. Os nad ydych yn feichiog, mae progesteron yn cael ei greu am bythefnos; wedi hyn mae'r corpus luteum yn diflannu, mae'r misglwyf yn dechrau, ynghyd â chylch newydd. Pan ydych yn feichiog, mae'r goden hon yn aros ac yn parhau i ollwng progesteron am 13 wythnos cyntaf y beichiogrwydd.

Defnyddir hCG a progesteron i arwain sut y mae BLIA yn cael ei drin. Mesurir y progesteron yn ystod yr ymweliad cyntaf gan rai meddygon, tra bod yr

hCG yn cael ei fesur yn yr ymweliad cyntaf ac yna 48 awr yn ddiweddarach, yn y mwyafrif o achosion. Mae lefel isel o progesteron a lefelau hCG sy'n gostwng yn arwydd nad yw'r beichiogrwydd bellach yn tyfu, neu fod y beichiogrwydd eisoes wedi dod i ben drwy gamesgoriad.

Mae lefel uchel o progesteron a lefelau o hCG sy'n codi fel arfer yn gysylltiedig â beichiogrwydd, hyd yn oed os nad yw hyn i'w weld ar y sgan.

Yn y sefyllfa hon, mae'n debygol bod y beichiogrwydd yn y lle iawn yn y groth. Weithiau, fodd bynnag, nid yw'r hCG yn codi i'w lefelau priodol a gall hyn olygu bod y beichiogrwydd yn un ectopig. Bydd y meddyg sy'n gofalu amdanoch yn dehongli'r canlyniadau hyn er mwyn cynllunio camau nesaf eich gofal yn ddiogel.

Defnyddir hCG hefyd i helpu penderfynu beth yw'r ffordd orau o drin beichiogrwydd ectopig. Asesir y canlyniadau hyn gan eich meddyg ochr yn ochr â'ch symptomau a chanlyniadau eich sgan uwchsain. Bydd eich triniaeth a'ch gofal yn ddibynnol ar y canlyniadau hyn.

- Gall fod lefelau eich hormonau'n codi yn ôl patrwm beichiogrwydd normal sy'n rhy gynnar i'w weld ar sgan. Os yw hyn yn digwydd, dylid ailgynnal y sgan pan fo lefel eich hormon wedi pasio 1000iu/l neu 1500iu/l. Gall beichiogrwydd ei leoli ei hun y tu mewn neu'r tu allan i'r groth; dyna pam mae'n bwysig cael ail sgan pan fo'r hormon

wedi cyrraedd lefel priodol.

- Gall fod lefelau eich hormon wedi'u haneru, sy'n awgrymu bod y beichiogrwydd wedi methu, a bod camesgor wedi digwydd.
- Gall fod lefelau eich hormon yn gostwng yn raddol, yn aros yr un fath neu'n codi. Gall hyn fod yn arwydd o feichiogrwydd ectopig. Os yw'r meddygon yn amau bod eich beichiogrwydd yn un normal/arferol neu ei fod yn feichiogrwydd ectopig, byddwch, fwy na thebyg, angen dychwelyd i'r ysbyty am sgan arall er mwyn ceisio lleoli'r beichiogrwydd. Bydd amseru'r sgan yn dibynnu ar lefel yr hCG yn eich gwaed, fel y gwelir yng nghanlyniadau'ch profion gwaed.

Yn anffodus, os yw'ch lefelau hCG yn gostwng, yn hytrach na chael ail sgan, mae'n bosib y bydd gofyn i chi gael mwy o brofion gwaed neu ail-wneud prawf wrin er mwyn profi a yw lefelau'r hormonau wedi gostwng i'r lefel cyn y beichiogi.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn mynd i'r ysbyty/uned argyfwng cyn gynted â phosib os ydych yn cael poen, os yw'r stumog yn chwyddo, eich bod yn teimlo'n benysgafn, yn cael poen wrth fynd i'r tŷ bach, neu boen yn eich ysgwyddau. Dylech gael eich gweld gan arbenigwr (gynecolegydd).

Pa mor gyffredin yw beichiogrwydd ectopig?

Yn ffodus, nid oes gan y mwyafrif o'r bobl sy'n cael Beichiogrwydd mewn Lleoliad Anhysbys feichiogrwydd